

# Newyddlen

## Haf 2020

### Cenhadaeth SSCE Cymru

#### Gwybodaeth a thystiolaeth

Cydgysylltu gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth ar brofiadau plant sy'n gwasanaethu yn maes addysg i sicrhau bod dealltwriaeth dda o'u hanghenion.

#### Gweithgareddau ac adnoddau

Cydweithio ag aelodau rhwydwaith SSCE Cymru i gynnal gweithgareddau a chynhyrchu adnoddau a fydd yn helpu i gefnogi plant y lluoedd ar hyd eu haddysg.

#### Polisi a Systemau Ategol

Gweithio gyda sefydliadau i roi tystiolaeth ac effaith polisi sy'n berthnasol i gefnogi plant mewn addysg.



## Casglu data SSCE Cymru

Ar hyn o bryd mae SSCE Cymru yn ymwybodol o tua 2,100 o blant milwyr yn byw yng Nghymru ac mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu'r ffordd orau o gasglu data yn 2020.

Pam fod deall nifer plant milwyr a'u lleoliad yn bwysig:

- Fe all SSCE Cymru weithio gyda'r ysgolion a chynnig cymorth pan fo angen
- Fe ellir sicrhau fod Ysgolion yn cael yr adnoddau a'r hyfforddiant cyfredol a all fod o gymorth iddynt i gefnogi plant milwyr
- Fe all arian sydd ar gael i gefnogi plant milwyr mewn addysg gael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl.

## Plant Milwyr –Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (RSLO)

Ar y cyd gyda Brigâd 160 (Cymru), mae SSCE Cymru wedi cael nawdd gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog i gyflwyno Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol Plant Milwyr yng Nghymru. Bydd y pedwar SC-RSLOs yn cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol lletyol i weithio ar draws pump/chwe awdurdod lleol yr un ar gyfer prosiect dwy flynedd, yn ddechrau mis Medi 2020. Byddant yn cefnogi SSCE Cymru yn rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar wreiddio arfer da mewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

[Hysbyseb swydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Ynys Môn](#)

[Hysbyseb swydd Cyngor Dinas Casnewydd](#)

Bydd y swyddi wedi'u lleoli yn Sir Benfro a Bro Morgannwg, a bydd yr hysbysebion yn cael eu rhannu i Rwydwaith SSCE Cymru pan fyddant ar gael.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â [millie.taylor@wlga.gov.uk](mailto:millie.taylor@wlga.gov.uk)

## Cymorth Covid-19

Mae tudalen wedi cael ei hychwanegu i wefan SSCE Cymru, sy'n darparu hon yn darparu gwybodaeth/cyngor/canllawiau a chyfeirio at sefydliadau ac adnoddau sy'n berthnasol i gefnogi plant milwyr yn ystod pandemig y Coronafeirws.

Mae'n cynnwys:

- Gwybodaeth addysg
- Mae sefydliadau'r Lluoedd Arfog yn cefnogi
- Cymorth iechyd meddwl a lles
- Gwybodaeth am ysgol gartref.

Efallai bydd y wybodaeth yn fuddiol i ysgolion/lleoliadau addysg, awdurdodau lleol a rhieni/gofalwyr plant milwyr.

[www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodauulleol/cymorthcovid19](http://www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodauulleol/cymorthcovid19)

Am ragor o wybodaeth ar rhaglen SSCE Cymru ewch i [www.SSCECymru.co.uk](http://www.SSCECymru.co.uk) a dilyn [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru) ar Twitter

Mae croeso i chi ddosbarthu newyddlen SSCE Cymru i'ch rhwydwaith a'ch cysylltiadau eich hun. Gall unrhyw un sydd am ymuno â Rhwydwaith SSCE Cymru gofrestru [yma](#).

# Y diweddraf yn ymwneud â chyllid

## Canllaw nawdd SSCE Cymru

Cynhyrchodd aelodau rhwydwaith SSCE Cymru y ddogfen hon i roi gwybodaeth i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru am y ffrydiau ariannu sydd ar gael, ynghyd â chyngor ar lenwi'r ffurflenni cais. Mae'r cyngor yn dod gan aelodau o'r paneli ariannu, yn ogystal a ysgolion ac awdurdodau lleol sydd wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud cais am y grantiau.

Cynhyrchwyd y ddogfen ganllaw i ddechrau yn 2019 a chafodd eu diweddaru ym mis Mai 2020 i adlewyrchu manylion yr arian sydd ar gael ar gyfer 2020/21. Ar hyn o bryd, mae'n bennaf yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ar ddwy ffrwd ariannu, sef y MODs ESF ac arian Ymddiriedolaeth Addysg y Lluoedd Arfog. Caiff y canllawiau eu diweddaru pan fydd unrhyw ffrydiau ariannu perthnasol eraill yn cael eu darparu, sy'n berthnasol i gefnogi plant sy'n derbyn gwasanaeth mewn addysg yng Nghymru.

### [Plant Milwyr – canllawiau cyllid i ysgolion yng Nghymru](#)

## Cyllid Llywodraeth Cymru



Mae SSCE Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar siapio sut y bydd y cronfeydd sydd ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021 yn cael eu defnyddio.

## Cyllid y Weinyddiaeth Amddiffyn



### [Y Weinyddiaeth Amddiffyn \(MOD\) – cronfa cymorth addysg \(ESF\) \(2021\)](#)

Mae £3m ar gael ledled y DU i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i oresgyn yr heriau y maent yn eu wynebu wrth gefnogi plant sy'n derbyn gwasanaeth o ganlyniad i symudedd a/neu leoli sylweddol.

**Dyddiad cau ymgeisio: 7fed o Hydref 2020.**

**Mae canllawiau a chyngor ar ymgeisio am grantiau ar gael yma**  
**[www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cyllid](http://www.SSCECymru.co.uk/Cymraeg/ysgolionacawdurdodaulleol/cyllid)**

# Y wybodaeth ddiweddaraf am Rwydwaith SSCE Cymru

## Addysg

Service Children's Progression  
 ALLIANCE


### Gwrando er mwyn Dysgu: Lleisiau Plant Milwyr

Mae gwranddo ar farn, profiadau a blaenoriaethau plant milwyr yn ganolog i ffordd o weithio partneriaeth SCiP Alliance. Mae ganddynt weledigaeth ar gyfer llunio polisïau ac ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac wrth galon hynny mae lleisiau plant milwyr. Roedd Blwyddyn Llais Plant Milwyr yn raglen o waith ymchwil i wella dealltwriaeth SCiP Alliance o sut roedd y sawl sy'n cefnogi plant o deuluoedd y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr yn rhoi lleisiau'r plant wrth galon popeth. Ewch i [www.SCiPAlliance.org](http://www.SCiPAlliance.org) i ganfod yr adroddiad yn llaw a gwylia gweminar a lanswyd yr adroddiad hwn ar 14 Mai, 2020, gan gynnwys Rheolwr Rhaglen SSCE Cymru fel un o aelodau'r panel.

## Cyfleoedd Dysgu gan Amgueddfa Cymru

A yw'r Celtiaid yn creu llanast yn eich tŷ? A yw'r Rhufeiniaid yn eich gyrru'n wallgof? A oes angen ysbrydoliaeth arnoch ar gyfer gwaith celf eich plentyn? Mae gan yr amgueddfa lawer o adnoddau dysgu ar sawl pwnc, sydd ar gael ar [eu.gwefan](http://eu.gwefan).

### Digital Resources



Maent yn trydar am yr amrywiaeth o adnoddau ar [@AmgueddfaCymru](https://twitter.com/AmgueddfaCymru) - dilynwch nhw am ragor o wybodaeth!

## Cais i gyfrannu at waith ymchwil

### YDI DY RIENI YN Y LLUOEDD ARFOG?



WYT TI RHWNG 11 AC 16 OED?

YDI UN NEU'R DDAU RIANT YN Y LLUOEDD ARFOG?

A FYDDET TI'N FODLON SIARAD GYDA MI AM DY  
BROFIADAU O ADDYSG AR GYFER FY ASTUDIAETHAU  
DOETHUROL?

FY ENW I YDI LAURA, AC RYDW I'N DDARPAR SEICOLEGYDD  
ADDYSGOL. OS OES GEN TI DDIDDORDEB CYMRYD RHAN YN  
FY ASTUDIAETH AC EISIAU GWYBOD MWY, CYSYLLTA GYDA  
MI DROS E-BOST:

[LPOTTS@TAVI-PORT.NHS.UK](mailto:LPOTTS@TAVI-PORT.NHS.UK)

## Sefydliadau'r Lluoedd Arfog



Ministry  
of Defence

### Gwasanaeth Cyngori Addysg Plant (CEAS)

Mae timau CEAS yn gweithio o bell oherwydd COVID-19. Os oes angen i deuluoedd y Lluoedd Arfog gysylltu â nhw gydag unrhyw faterion yn ymwneud ag addysg eu plant, er enghraifft cofrestru i'r ysgol, cyngor yn ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau / Anghenion Ychwanegol, addysg dramor, neu gynnal Llety Teulu'r Lluoedd Arfog er rhesymau addysgol, yna dylech anfon neges e-bost at: [DCYP-CEAS-](mailto:DCYP-CEAS-Enquiries@mod.gov.uk)

[Enquiries@mod.gov.uk](mailto:Enquiries@mod.gov.uk)

Mae rhagor o wybodaeth ar eu gwefan, a gellir canfod materion yn ymwneud â COVID-19 yma: <https://www.gov.uk/guidance/dcyp-covid-19>



Ministry  
of Defence

## Byw yn ein Esgidiau: Deall anghenion teuluoedd lluoedd arfog y DU

Adolygiad a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i'r pryderon a godwyd gan deuluoedd y lluoedd arfog ac argymhellion ar gyfer newid. Cyhoeddwyd ar 30ain Mehefin 2020.

Mae'r adran sy'n tyfu i fyny yn y fyddin: effaith bywyd gwasanaeth ar blant a phobl ifanc (tudalennau 47-92 yr adroddiad llawn), yn manylu ar dystiolaeth am brofiadau plant y lluoedd arfog a'r systemau cymorth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am SSCE Cymru. Mae hefyd yn darparu 30 o argymhellion tymor byr, canolig a thymor hir.

[www.gov.uk/government/publications/living-in-our-shoes-understanding-the-needs-of-uk-armed-forces-families](http://www.gov.uk/government/publications/living-in-our-shoes-understanding-the-needs-of-uk-armed-forces-families)

## Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n gweithio i neu'n gweithio gyda'r Lluoedd Arfog ac yn haeddu cydnabyddiaeth?

Mae Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru yn chwilio am enwebiadau addas ar gyfer y pedwar categori:

- Gwobr y Lluoedd Arfog yng Nghymru
- Gwobr Cyfamod
- Gwobr i'r Ieuencid/Cadetaid
- Gwobr Chwaraeon.

Y dyddiad olaf ar gyfer enwebiadau yw 9 Medi. Am ragor o wybodaeth neu i wneud cais am y pecyn cais, cysylltwch â [160X-MCI-AFWA-Groupmailbox@mod.gov.uk](mailto:160X-MCI-AFWA-Groupmailbox@mod.gov.uk)



Mae dysgu o gartref a chanfod gweithgareddau i ddiddori plant yn her i rieni/gofalwyr yn ystod argyfwng Covid-19. Mae Reading Force wedi bod yn helpu drwy anfon llyfrau am ddim a llyfrau bras i dros 3,000 o blant y Lluoedd Arfog!

Mae hyn wedi darparu gweithgaredd adeiladol drwy gydol y cyfnod clo ac wedi cael ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad gyda rhieni a theulu ehangach.

Gall ysgolion, meithrinfeydd a sefydliadau lles gofrestru ar <https://www.readingforce.org.uk/schools-groups/> i dderbyn bras llyfrau AM DDIM i'w danfon i deuluoedd y Lluoedd Arfog rydych yn gweithio gyda nhw. Gallwch ledaenu'r gair ar eich cyfryngau cymdeithasol a mewn gohebiaeth. Dyma fenter AM DDIM sydd ar gael i'r sawl sy'n gwasanaethu, wrth gefn, yn gyn-filwr, wedi anafu, yn ogystal â phartneriaid sydd wedi gwahanu neu wedi cael ysgariad i blant personél y Lluoedd Arfog.





## ADNODD CADERNID DIGIDOL I YSGOLION

Mae dros 70,000 o bobl eisoes wedi profi gweithdy Gwneud Cenhedlaeth R yn bersonol, gydag Aelod o Blesma yn ymweld â'u hysgol a rhannu eu stori anhygoel o Gadernid.

"Rydym yn teimlo'n angerddol am ledaenu ein neges o Gadernid a gwybod fod ei angen, yn arbennig yn ystod y cyfnod heriol hwn."

Eu hymateb i Covid-19 yw parhau i gynnal y rhaglen ar ffurf Adnodd Cadernid Digidol sydd am ddim ac ar gael i bob ysgol uwchradd yn y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.blesma.org/making-generation-r/](http://www.blesma.org/making-generation-r/)

## Aelodau rhwydweithiau eraill



Relate yw'r darparwr mwyaf y DU o ran perthynas cymorth, ac yn 2019, wedi helpu dros dau fil o bobl bob oedran, cefndir, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd i gryfhau eu perthynas. Mae'n ymwneud â darparu cymorth drwy gwnsela, rhaglenni tramgwyddwyr cam-drin domestig a chyswllt plant â chymorth drwy gynadledda wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu drwy gyfrwng fideo.

Drwy bartneriaethau gyda'r RAFBF a RNRMC, mae Relate yn gallu cynnig cwnsela ar berthynas am ddim i'r AWYRLU Brenhinol, y Llynges Frenhinol a'r Morlu Brenhinol sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr, y lluoedd wrth gefn a'u dibynyddion. Mae personél a theuluoedd y lluoedd arfog yn wynebu pwysau unigryw sy'n gallu effeithio ar fywyd y teulu a pherthnasau cwpl. Mae cwnsela Relate ar gael os ydych yn briod, yn byw gyda'ch gilydd, mewn perthynas o'r un rhyw, wedi gwahanu, wedi ysgaru, yn weddw neu'n sengl ac y gellir ei ddarparu'n ddigidol neu wyneb yn wyneb. Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys sut i gael gafael arnynt, ewch i:

[RAF](#)

[Llynges Frenhinol/Môr-filwyr Brenhinol](#)

[www.relate.org.uk/cymru](http://www.relate.org.uk/cymru)



Ar ôl tair blynedd o ddatblygiad, mae Heads Together wedi datblygu HeadFIT, mewn partneriaeth gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dyma blatfform newydd gyda phecynnau gwaith ar-lein i helpu personél y lluoedd arfog i weithio'n fwy rhagweithiol tuag ar eu hiechyd meddwl a'u ffitrwydd meddyliol.

**"Ffitrwydd Meddyliol yw rheolaeth dda o iechyd meddwl da. Mae HeadFIT yn helpu cadw pobl yn y Lluoedd Arfog gadw'n ffit yn feddyliol ac ar ben eu camp... Yn y gwaith a gartref."**

[www.headfit.org](http://www.headfit.org)

# NSPCC

Nid yw'r cartref yn le diogel bob amser. Gyda'r ysgol ar gau, gall roi plant mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin a'u hesgeulusto, a dyna pam rydym yn cefnogi'r NSPCC. Os ydych chi'n pryderu am blentyn neu berson ifanc, neu rydych wedi sylwi nad yw rhywbeth yn iawn, mae'r NSPCC yma i chi. Galwch siarad ag aelod o dîm eu llinell gymorth, sy'n rhoi cymorth a chyngor am ddim ar 0808 800 5000 (8am-10pm Llun-Gwener / 9am-6pm penwythnosau) neu gallwch anfon neges e-bost at [help@nspcc.org.uk](mailto:help@nspcc.org.uk) 24/7.

## Adnoddau



**Naval Families**  
F E D E R A T I O N

### Homeport

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:  
<https://nff.org.uk/homeport-magazine/>



**aff** | army  
families  
federation

### Cylchgrawn Army & You

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma: <https://bit.ly/AYsum20>  
Gan gynnwys manylion adnoddau newydd SSCE Cymru ar dudalen 46.



**ROYAL  
AIR FORCE  
Families  
Federation**

### Envoy

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael yma:  
<https://www.raf-ff.org.uk/publications/envoy-magazine/>

## Covid:19 adnoddau cymorth

Ewch i [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru) ar Twitter, lle byddwn yn rhannu llawer o wybodaeth a chyngor perthnasol ar sut i gefnogi plant milwyr yn ystod COVID-19.



# Digwyddiadau i ddod

Un nodwedd ar wefan newydd SSCE Cymru yw calendr o ddigwyddiadau. Cliciwch [yma](#) i weld manylion:

- Digwyddiadau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Digwyddiadau rhwydwaith aelodau sydd i ddod gan SSCE Cymru
- Fforymau Lluoedd Arfog sydd i ddod
- Fforymau Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd y Brifysgol sydd i ddod
- Manylion digwyddiadau blaenorol SSCE Cymru (gan gynnwys copïau o raglenni a chyflwyniadau).

I rannu manylion digwyddiad sy'n berthnasol i Gymuned y Lluoedd Arfog, cysylltwch â [SSCE@wlga.gov.uk](mailto:SSCE@wlga.gov.uk)

# Astudiaethau achos

Yn ddiweddar mae SSCE Cymru wedi ychwanegu cyfres o astudiaethau achos newydd i'r [wefan](#), gan rannu enghreifftiau o arferion da mewn ysgolion ar draws Cymru.

I ddweud wrthym am y gwaith rydych yn ei wneud a sut mae hynny wedi bod o fudd i blant milwyr neu gymuned yr ysgol, cysylltwch â [SSCE@wlga.gov.uk](mailto:SSCE@wlga.gov.uk).



Bydd Newyddlen nesaf SSCE Cymru yn cael ei ddosbarthu yn Hydref 2020.

Os hoffech gyfrannu cynnwys i'r rhifyn nesaf, anfonwch y deunydd i [SSCE@wlga.gov.uk](mailto:SSCE@wlga.gov.uk) erbyn 9 Medi.



Dilynwch ni ar Twitter [@SSCECymru](https://twitter.com/SSCECymru)